

---

# Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr: Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol 2021-2026

Cyfrol 1: Trosolwg, crynodeb a chyflwyniad

---



## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ionawr 2020

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 1 Ebrill 2020

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

2

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae Ofcom yn creu'r amodau i drawsnewid yr achos busnes ar gyfer buddsoddi mewn band eang ffeibr llawn drwy'r ffordd rydym yn rheoleiddio BT i helpu'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr ledled y DU – gan gynnwys yn yr ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd.

Mae angen buddsoddi yn seilwaith telegyfathrebiadau'r DU er mwyn bodloni'r galw cynyddol am fand eang gwibgyswllt, a'r galw yn y dyfodol. Ers i ni bennu amrywiaeth o fesurau o blaid buddsoddi ar gyfer 2018-2021, mae nifer o gwmnïau wedi cyhoeddi neu wedi dechrau cyflwyno ffeibr newydd. Mae'r ddarpariaeth o ffeibr llawn yn cynyddu ar y gyfradd gyflymaf erioed ac mae wedi mwy na threblu o 3% i 10% mewn tair blynedd.

Dylai rhwydweithiau band eang y dyfodol ddarparu dewis, gwerth ac ansawdd. Y dull mae Ofcom wedi bod yn ei ddefnyddio i gyflawni hyn yw drwy annog cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau gwahanol.

Yn rhannau llai proffidiol y wlad lle nad yw rhwydweithiau cystadleuol yn gynaliadwy, nod ein strategaeth yw pennu prisiau rheoleiddiol sy'n cefnogi buddsoddiad gan Openreach. Mae arian cyhoeddus yn allweddol yma hefyd, ac rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i fuddsoddi £5bn er mwyn helpu i gyflwyno seilwaith yn y 20% mwyaf heriol yn y DU.

Rydym ni nawr yn nodi ein cynlluniau ar gyfer rheoleiddio o Ebrill 2021 ar gyfer y marchnadoedd telegyfathrebiadau sy'n tanategu cysylltiadau band eang, symudol a busnes.

## Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Rydym wedi sylwi bod gan BT bŵer marchnad yng nghyswllt darparu seilwaith telegyfathrebiadau ffisegol ac mewn gwasanaethau band eang a llinellau ar brydles. Rydym yn cynnig mynd i'r afael â'r pŵer marchnad hwnnw drwy reoleiddio mewn ffordd sy'n cefnogi buddsoddiad ac sy'n gwarchod cwsmeriaid.

**Dulliau gweithredu gwahanol o reoleiddio cynnyrch preswyl Openreach mewn gwahanol rannau o'r DU.** Rydym yn cynnig amrywio sut rydym yn rheoleiddio cynnyrch band eang Openreach, yn dibynnu ar lefel y gystadleuaeth bresennol neu'r gystadleuaeth ddichonol mewn ardal benodol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r cynigion a amlinellwyd ym mis Mawrth 2019. Rydym yn cynnig amrywio rheoleiddio yn ddaearyddol fel a ganlyn:

- **Mewn ardaloedd cystadleuol** lle mae cystadleuaeth wedi'i sefydlu, ni fyddem yn rheoleiddio cynnyrch band eang Openreach. Rydym yn cynnig peidio ag enwi ardaloedd o'r fath ar hyn o bryd ond rydym yn disgwyl gwneud hynny yn y dyfodol. Byddai cwsmeriaid yn yr ardaloedd hyn yn elwa o gael dewis o fwy nag un rhwydwaith, felly mae'n bosib y galleu gael gwared ar gyfyngiadau rheoleiddio a fydd yn annog buddsoddiad ac arloesi.

- **Mewn ardaloedd cystadleuol posib** lle mae rhywfaint o gystadleuaeth eisoes yn bodoli ac/neu mae cystadleuaeth bellach yn debygol o ddigwydd, bydd rhaid i Openreach ddarparu mynediad cyfanwerthol i'w rwydwaith o hyd. Byddem yn cadw prisiau rheoledig sefydlog a gwastad a fyddai'n cael eu haddasu yn ôl chwyddiant ar gyfer gwasanaeth band eang cyflym iawn lefel mynediad Openreach, sydd â chyflymder llwytho i lawr o hyd at 40Mbit yr eiliad. Mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i fuddsoddwyr ac yn ei gwneud yn bosibl i bob cwmni wneud elw teg. Mae'n dilyn toriad sylweddol a wnaeth Ofcom i bris y cynnyrch yma yn ein hadolygiad yn 2018. I helpu'r achos buddsoddi mewn ffeibr, byddai Openreach yn gallu codi ychydig yn fwy am y cynnyrch hyn sy'n cael eu rheoleiddio os ydynt yn cael eu darparu dros ffeibr llawn. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddion ychwanegol y mae ffeibr yn ei gynnig i gwsmeriaid o'i gymharu â chopr, megis cyflymder a dibynadwyedd. Ni fyddem yn rheoleiddio prisiau pecynnau cyflymder uwch Openreach. Er mwyn diogelu cwmnïau sy'n newydd i'r farchnad, rydym yn bwriadu gwahardd Openreach rhag cynnig disgowntiau sy'n cael eu targedu'n ddaearyddol, gan gynnwys ar eu gwasanaethau ffeibr. Byddai angen i Openreach roi 90 diwrnod o rybudd cyn cyflwyno amodau masnachol penodol a allai rwystro defnyddio gweithredwyr rhwydweithiau eraill er mwyn ein galluogi i asesu os ydynt yn dderbyniol a'u heffaith cyn iddynt ddod i rym. Cyn i'n cynigion newydd ddod i rym, byddwn yn monitro unrhyw drefniadau masnachol sy'n cael eu cynnig gan Openreach, a byddem yn disgwyl defnyddio ein pwerau presennol i ymyrryd er mwyn rhwystro unrhyw drefniadau a fyddai, yn ein barn ni, yn atal cyflwyno rhwydwaith arall.
- **Mewn ardaloedd anghystadleuol** lle mai Openreach yw'r gweithredwr sy'n darparu rhwydwaith ar raddfa fawr, rydym yn cynnig dull rheoleiddio sydd wedi'i gynllunio i gefnogi buddsoddiad drwy ganiatáu i Openreach adennill ei gostau i adeiladu rhwydwaith ffeibr newydd. Byddai'n adennill y costau hyn ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau (yn debyg i ddull model 'sylfaen asedau rheoledig') a fyddai'n lleihau'r risg ynghlwm â'i fuddsoddiad. Os bydd Openreach yn darparu ymrwymiad cadarn i osod rhwydweithiau ffeibr yn y rhannau hyn o'r wlad, gallwn gynnwys cost y gwaith cyflwyno yn ei brisiau o'r dechrau. Os na fyddant yn gwneud hynny, byddai ei brisiau ond yn cynyddu ar ôl gosod y rhwydwaith ffeibr. Byddwn hefyd yn mynnu bod Openreach yn darparu cysylltiadau ffeibr tywyll i gefnogi twf y rhwydwaith symudol a rhwydweithiau eraill.

**Cymorth i Openreach wrth iddo roi'r gorau i ddefnyddio ei hen copr.** Wrth i Openreach osod rhwydweithiau ffeibr newydd yn lle'r hen linellau copr, ni ddylai orfod wynebu costau diangen wrth redeg dau rwydwaith cyfochrog. Bydd diogelu cwsmeriaid yn hanfodol yn ystod y broses o drosglwyddo'n raddol. Rydym yn cynnig cael gwared ar reoleiddio ar gynnyrch copr Openreach mewn ardal gyfnewid ar ôl adeiladu rhwydwaith ffibr yno, a throsglwyddo'r rheoleiddio (gan gynnwys diogelu prisiau) o wasanaethau copr i wasanaethau ffibr.

**Gwell mynediad at bolion telegraff a phibellau tanddaearol Openreach ar gyfer cwmnïau eraill.** Byddai darparwyr rhwydwaith yn gallu gosod eu rhwydweithiau ffibr eu hunain gan ddefnyddio seilwaith Openreach. Gall darparu'r mynediad hwn haneru costau adeiladu'r rhwydweithiau hyn. Mae sawl cwmni eisoes yn defnyddio pibellau a pholion Openreach i gysylltu miloedd o gartrefi a busnesau i fand eang cyflymach a mwy dibynadwy heb orfod tyllu'r strydoedd sawl gwaith.

**Rheoleiddio 'llinellau ar brydles' mewn ffordd debyg i fand eang preswyl.** Rydym yn cynnig rheoleiddio 'llinellau ar brydles' Openreach – cysylltiadau data cyflymder uchel a ddefnyddir gan sefydliadau mawr, sy'n asgwrn cefn i rwydweithiau symudol a band eang y DU – mewn ffordd debyg i gynnyrch band eang preswyl drwy amrywio ein dull i adlewyrchu lefel bresennol, neu ddichonol y gystadleuaeth.

**Cynnal ansawdd mesurau diogelu'r gwasanaeth.** Er mwyn sicrhau bod Openreach yn darparu gwasanaeth o'r safon sydd ei angen ar gwsmeriaid, rydym yn cynnig cadw'r rheolau presennol o ran pa mor gyflym y dylai Openreach wneud y gwaith gosod a thrwsio.

Rydym yn ymwybodol ei bod hi'n ddrutach o lawer gwasanaethu rhai rhannau o'r wlad. Mae'r DU a'r Llywodraethau datganoledig wrthi'n dylunio sawl cynllun i helpu i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau band eang yn yr ardaloedd hyn.

Mae ein cynigion ar gyfer yr ardaloedd hyn wedi'u cynllunio i ategu'r prosiectau cyhoeddus hynny. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau mai dyma beth fydd yn digwydd.

## Y camau nesaf

Rhaid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 1 Ebrill 2020. Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad yn nodi ein penderfyniadau cyn i'r dull rheoleiddio newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2021. Efallai y byddwn yn ymgynghori ar faterion penodol eto yn Ch2 2020/21 gan ddibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Nid yw'r adolygiad hwn yn cynnwys ardal Hull a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân yn Ch1 2020.